Crynodeb gweithredol o adroddiad atborth Llais / Hydref 2026



Gwella Gyda'n Gilydd: Yr Hyn a Ddywedodd Pobl Wrthym

Katie Blackburn – Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Llais Powys

Mae Llais wedi bod yn gwrando'n annibynnol ar farn pobl ym Mhowys am y cynigion Gwella Gyda'n Gilydd, a'u profiadau nhw o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi yr hyn a glywodd Llais yn nigwyddiadau Gwella Gyda'n Gilydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis Hydref 2026, yn Llanfair ym Muallt, Machynlleth, Trefyclo, Llanfyllin, Crucywel ac ar-lein. Mae hefyd yn cwmpasu 16 eitem o ohebiaeth.

Roedd pobl yn croesawu'r syniad o ofal gwell yn nes at adref, mwy o gymorth i aros yn iach a gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd. Roeddent eisiau hyder y byddai gwasanaethau newydd yn ddiogel, wedi'u staffio'n iawn ac yn gweithio cyn i wasanaethau presennol gael eu lleihau. Nid oedd diddordeb mewn gofal cymunedol gwell o reidrwydd yn golygu eu bod yn cytuno â phob newid arfaethedig.

Yr hyn a ddywedodd pobl mewn digwyddiadau

- Cyrraedd gofal. Roedd pobl eisiau gwasanaethau y gallent eu cyrraedd. Roedd teithiau hir, nifer cyfyngedig o fysiau, costau teithio a'r ffyrdd yn y gaeaf yn bryderon, yn enwedig i bobl heb geir. Roedd teuluoedd yn poeni am ymweld ag anwyliaid, gan gynnwys y rhai sy'n agosáu at ddiwedd oes.
- Digon o staff a chymorth. Roedd pobl eisiau gofal dibynadwy yn y cartref cyn i wasanaethau newid. Fe wnaethant holi sut y byddai digon o nyrsys, gofalwyr a staff arbenigol yn cael eu recriwtio. Fe ddywedon nhw na ddylid disgwyl i ofalwyr di-dâl gymryd lle gweithwyr proffesiynol, ac ni ddylid esgeuluso pobl heb gefnogaeth teulu.
- Gwelyau ysbyty lleol. Roedd pobl yn gwerthfawrogi gwelyau yn agos i gartref ar gyfer gwellhad a gofal tua diwedd oes. Fe wnaethant holi i ble y byddai pobl yn mynd pe bai gofal cartref yn anaddas, a beth fyddai'n digwydd pe bai gwasanaethau yn eu lle yn cael eu gohirio.

- Gofal iechyd meddwl. Holodd pobl a fyddai dod â gofal ysbyty ynghyd, ar un safle, yn gwneud ymweliadau teuluol yn anoddach. Roeddent eisiau gwybod a fyddai cymorth mewn argyfwng a gofal yn y gymuned ar gael pan fo angen.
- Gofal brys. Roedd pobl eisiau gwybodaeth glir am ble i fynd, beth y gellid ei drin yn lleol, oriau agor a mynediad at brofion fel pelydr-x.
- Canlyniadau profion. Holodd pobl hefyd sut y byddai gwasanaethau'n cydweithio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
- Cyfle teg i ddylanwadu ar benderfyniadau. Roedd pobl eisiau deall y dystiolaeth, a oedd opsiynau eraill yn dal yn bosib, a sut y gallai eu hatborth ddylanwadu ar benderfyniadau. Roeddent eisiau i wahanol anghenion cymunedau gwledig gael eu cymryd o ddifrif.

Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad

Gwelodd Llais drafodaethau adeiladol a staff cynorthwyol, ond hefyd rwystrau i gymryd rhan. Roedd y rhain yn cynnwys anawsterau clywed, gwybodaeth anodd ei darllen, problemau wrth ddefnyddio ffurflenni ar-lein a chwestiynau am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a fformatau hygyrch.

Beth mae Llais yn ei wneud

Rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd sut y bydd yn cofnodi a defnyddio sylwadau pobl, yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cyflawni'r cynigion, ac yn cyrraedd pobl y mae eu lleisiau'n cael eu clywed yn llai aml. Gofynnwyd hefyd i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r ymgynghoriad pan fydd wedi cyrraedd hanner ffordd.

Byddwn yn parhau i wrando ac yn cyhoeddi diweddariadau misol, gan gynnwys pryderon a godwn gyda'r Bwrdd Iechyd a'i ymatebion. Byddwn yn egluro'r hyn sy'n parhau heb ei ddatrys, fel y gall pobl weld sut mae eu profiadau'n cael eu hystyried.